2023-2024

# Cylchlythyr yr Haf

# Summer Newsletter



# Neges wrth y Pennaeth
# Message from the Headteacher



Ar ddiwedd blwyddyn brysur ond llwyddiannus arall, hoffwn unwaith eto, manteisio ar y cyfle i ddiolch i holl staff, plant, rhieni, gwarcheidwaid a llywodraethwyr Sant Curig am eu holl waith caled yn ystod y flwyddyn, a'r tymor hwn yn arbennig. Mae'r tymor hwn wedi bod yn un mor bositif o ran cynnydd disgyblion, eu lles a chael y cyfle i groesawu rhieni a gwarchodwyr i'r ysgol i ddathlu gwaith eu plant ac i fwynhau ein gwasanaethau rhagorol. Wnaethon ni ddim cyrraedd ein targed presenoldeb ysgol o 94%, a osodwyd gan yr awdurdod lleol, mae'n edrych yn debyg y byddwn yn gorffen y flwyddyn academaidd hon ar tua 92.4%

Mae disgyblion Sant Curig wedi gweithio'n ddiflino unwaith eto. Fel y gwelwch unwaith eto o'n Cylchlythyr, roedd cymaint o themâu cyffrous a digwyddiadau diddorol ar draws yr ysgol - diolch i'r staff am drefnu'r digwyddiadau hyn ac i'r holl wahanol bobl a ddaeth i'r ysgol i gyfoethogi'r profiadau a gafodd ein plant. Ac i'n rhieni a'n gwarchodwyr am eu cefnogaeth gyda'r gweithgareddau hyn. Edrychwch yn ofalus ar y lluniau a'r holl wynebau hapus sydd ynddynt!

Rydyn ni'n ffarwelio â rhai o'n haelodau staff ac yn croesawu un yn ôl i #TeuluCurig. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i Mrs Catherine Jones am ei blynyddoedd o wasanaeth yn cefnogi cannoedd o blant dros y blynyddoedd. Mwynhewch eich ymddeoliad! Hefyd, pob lwc i Miss Lowri Jones ar ei theithiau, ac i Miss Lisa Williams sydd am ennill mwy o brofiad mewn gwahanol ysgolion dros y flwyddyn nesaf. Diolch i chi gyd am bopeth rydych chi wedi ei wneud i blant Sant Curig. Edrychwn ymlaen at groesawu Mrs Bethan Collins, ein harweinydd Blynyddoedd Cynnar yn ôl, a diolch i Mrs Lewis-Jones am ei gwaith eleni.

Yn olaf, gobeithiwn y cewch chi, ein teuluoedd cefnogol, wyliau haf bendigedig ac edrychwn ymlaen at eich croesawu yn ôl ar ddydd Mawrth y 3ydd o Fedi yn ffres ac yn barod am dymor newydd gydag athro newydd! (5ed o Fedi i blant meithrin) Mae'r staff unwaith eto wedi bod yn cynllunio gweithgareddau cyffrous ar gyfer y tymor sydd i ddod ac yn gobeithio y byddwch yn gallu rhannu'r gweithgareddau hyn gyda ni yn yr ysgol.

Mwynhewch haf hyfryd, diogel, holl #TeuluCurig!

*At the end of another busy but successful year, I would once again, like to take this opportunity to thank all the staff, children, parents, guardians, and governors of Sant Curig for all their hard work during the year, and this term in particular. This term has been such a positive one in terms of pupil progress, their wellbeing and having the opportunity to welcome parents and guardians into school to celebrate the work of their children and to enjoy our excellent assemblies. We didn't quite hit our school attendance target of 94%, set by the local authority, it looks like we will finish this academic year at around 92.4%*

*The pupils of Sant Curig have once again worked tirelessly. As you will once again see from our Newsletter, there were so many exciting themes and interesting events right across the school - thank you to staff for arranging these events and to all the different people who came into school to enrich the experiences that our children received and to our parents and guardians for their unwavering support with these activities. Just look carefully at the photos and all the happy faces in them!*

*We say goodbye to some of our staff members and welcome back one into the #CurigFamily. I'd like to take this opportunity to thank Mrs Catherine Jones for her years of service, supporting hundreds of children over the years. Enjoy your retirement! Also, good luck to Miss Lowri Jones on her travels, and to Miss Lisa Williams who looks to gain more experience in different schools over the next year. Thank you all for everything you have done for the children of Sant Curig. We look forward to welcoming back Mrs Bethan Collins, our Early Years leader, and thank Mrs Lewis-Jones for her work this year.*

*Finally, we hope you, our supportive families, have a wonderful summer break and we look forward to welcoming you back on Tuesday the 3rd of September fresh and ready for a new term with a new teacher! (5th of September for nursery children) The staff have once again been planning exciting activities for the coming term and hope that you will be able share in these activities with us in school.*

*Have a lovely, safe summer to all our #CurigFamily!*

# Dosbarth Derbyn

Dyma ni ar ddiwedd ein tymor olaf yn y Dosbarth Derbyn. Mae hi wedi bod yn dymor prysur ac rydym wedi cael llawer o hwyl.
Rydym wedi bod yn brysur yn y dosbarth yn darllen llawer o straeon diddorol. Roedd pawb wedi mwynhau darllen stori'r Lindysyn llwglyd iawn. Fe ddysgon ni am ba fwydydd sydd yn iach ac am ba fwydydd sydd yn afiach. Cawsom flasu ffrwythau gwahanol hefyd ac fe aethom ati i greu pictogram o'n hoff ffrwythau.

Roedd pawb wedi mwynhau mynd lawr i'r ardd wyllt ar helfa trychfilod i ddarganfod pa greaduriaid oedd yn byw yno. Cawsom hwyl yn didoli trychfilod yn ôl sawl coes oedd ganddynt ac os oedd ganddynt adenydd. Yn yr un modd rydym wedi bod yn darllen stori Sanau Newydd Sali ac rydym wedi bod yn dysgu am greaduriaid y Mr. Fel rhan o'm gwaith rydym wedi ysgrifennu ffeithiau diddorol am greaduriaid y môr.

Yn ystod y tymor hefyd rydym wedi cael y cyfle i gystadlu yn ein Eisteddfod Ysgol. Roedd pawb wedi cael y cyfle i ganu, llefaru a dawnsio ar y llwyfan. Roedd pawb wedi perfformio'n wych!
Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi ein diwrnod mabolgampau. Fe fuon ni'n ymarfer yn galed ac roedd pawb wedi rasio yn arbennig. Cawsom lawer o hwyl ac fe ddaeth yr haul allan hefyd.

Yn yr un modd aethom ar ein trip cyntaf i lawr i'r Memo i wylio sioe Rala Rwdins. Roedd pawb yn gyffrous iawn i fynd ac roedd pawb wedi mwynhau ein hymweliad â'r theatr.

Mae'r plant yn gyffrous iawn i symud i flwyddyn 1 ym mis Medi a dymunwn bob lwc iddynt. Gobeithio y cewch wyliau haf hyfryd ac rydym eisiau diolch i chi am fod yn gefnogol yn ystod y flwyddyn.

*Here we are at the end of our last term in the Dosbarth Derbyn. We have been very busy this term and we have had lots of fun.*
*We have been busy reading the Very hungry caterpillar in Welsh. We learned about which foods are healthy for us and which foods aren't. We also had the chance to taste different kinds of fruit and as part of our math lessons we created a pictogram of our favourite fruits.*


*Everyone enjoyed going down to the school garden on an insect and bug hunt. We saw lots of different creatures and when we got back to class, we learnt about how to sort the insects according to different criteria such as how many legs they had or if they had wings.*
*We have also been learning about animals and creatures that live in the sea. We have read a story called 'Sanau Newydd Sali' and as part of our language work, we have written facts about different sea creatures.*

*During the term we had the opportunity to compete in our school Eisteddfod. Everyone had the chance to sing, recite poetry and dance on the stage. Everyone performed well and had a great time.*
*Thank you to everyone who came to support our sports day. We had been practicing for weeks and everyone raced well. Even the sun came out to see us.*

*During the last term we also went on our first school trip to the Memo to see a Welsh language show. We were all very excited to go to the theater and we all had a great time.*
*The children are very excited about moving up to year 1 in September. We will miss them but wish them good luck in Year 1. We hope you have a lovely summer and thank you for all your continued support throughout the year.*














# Blwyddyn 6











Mae'r tymor olaf wedi hedfan heibio i ni ym Mlwyddyn 6! Ein thema y tymor hwn oedd cynaliadwyedd lle gwnaethom ddadansoddi'r cwestiwn mawr, 'Sut mae ein gweithredoedd yn effeithio ar ein Byd Bendigedig?'. Gwnaethom ddatblygu dealltwriaeth dda o sut y gall gweithredoedd pobl, gan gynnwys ein gweithredoedd ni, wella neu niweidio'r amgylchedd. Buom yn ymchwilio i ddadleuon o blaid ac yn erbyn datgoedwigo, gan ysgrifennu araith bwerus fel aelod o'r llwyth Awa. Dysgom am newid yn yr hinsawdd, ôl troed carbon a sut y gall hyn effeithio ar yr anifeiliaid gwyllt a'n hardal leol. Rydym wedi astudio Syr David Attenborough a'r effaith mae wedi cael ar ein byd. Gwylion ei raglenni am natur, y môr, a'r blaned gan ei astudio fel person er mwyn creu portread ohono. Yn ystod y tymor olaf, llwyddom i gynnal diwrnod ar gyfer ein Prosiect Busnes, roedd hi'n ddiwrnod braf gyda holl ddisgyblion yr Ysgol yn ein cefnogi ac yn mwynhau ymgymryd â'n gweithgareddau gwreiddiol ni. Cawsom hwyl yn ein Mabolgampau olaf. Buom yn gweithio fel tîm, yn annog eraill, ac ymarfer sgiliau. Buom yn ffodus i gael gweithdy gyda Cwmni Garage Band ble cawsom gyfle i greu curiadau a chyfansoddiadau gwreiddiol. Roedd hi'n ddiwrnod buddiol iawn. Byddwn yn gweld eisiau Ysgol Gymraeg Sant Curig yn fawr ond rydym yn edrych ymlaen at y bennod nesaf yn ein bywydau.

*This final term has flown by for us in Blwyddyn 6! Our theme this term was sustainability where we analysed the big question, 'how do our actions effect our wonderful world?'. Here, we developed a good understanding of how people's actions, including our own, can improve or damage the environment. We researched arguments in favour and against deforestation, which helped us write our powerful speeches. We learnt about climate change, carbon footprints and how this can affect our local area and wildlife. We have studied Sir David Attenborough and the impact he has had on our world. We watched his programmes about nature, the sea, and the planet and studied him as a person to create a portrait of him. During the final term we managed to hold a Day for our Business Project, it was a great day with all the pupils at the school supporting us and enjoying undertaking our original activities. We had fun in our last Sports. We worked as a team, encouraged others, and practiced skills. We were fortunate to have a workshop with Band Garage Company where we had the opportunity to create original beats and compositions. It was a very rewarding day. We will miss Sant Curig very much, but we are looking forward to the next chapter in our lives.*

*Diolch a hwyl fawr i chi gyd.*















# Gornest Llyfrau / Book Contest



Braf oedd cael mynd a'r chwe disgybl yma i'r Ornest Lyfrau cenedlaethol yn Aberystwyth yng nghanol mis Mehefin. Bu pedwar ohonynt, ynghyd a chriw arall o ddisgyblion hyn yr ysgol, yn ddiwyd yn darllen a thrafod llyfrau, a ffilmio hysbyseb ar gyfer y rowndiau Sirol ym mis Ebrill. Cafodd yr ysgol ei dewis i fynd drwy'r rownd sirol er mwyn cynrychioli Sir Bro Morgannwg yn y rownd genedlaethol. Diolch yn fawr i'r plant, roedden nhw'n wych!

*It was wonderful to be able to take these pupils to the national Book Contest in Aberystwyth mid-June. Four of them, along with another group of older school pupils, diligently read and discussed books, and filmed an advert for the County rounds in April. The school was selected to represent the Vale of Glamorgan County in the national round. The staff were extremely proud of their efforts!*












# Codi Arian / Fundraising

Diolch i bawb sydd wedi helpu i godi arian y tymor yma – llwyddwyd i godi £300 tuag at 'Gŵyl Fach y Fro'.

A diolch enfawr i'n Tîm Codi Arian Sant Curig am helpu i godi dros £5000 gyda'r Saethu Pêl-droed a'r Ffair Haf. Rydym yn gyffrous i allu gwella tiroedd ein hysgol, yn enwedig ein mannau awyr agored.

*Thank you to everyone who has helped raise monies this term—we were able to raise £300 towards 'Gŵyl Fach y Fro'.*

*And a massive thank you to our Sant Curig Fundraising Team helping to raise over £5000 with the Sponsored Shoot-out and Summer Fair. We are excited to be able to improve our school grounds, especially our outdoor areas.*

# Blwyddyn 5

Braf iawn oedd rhannu cwmni'r flwyddyn yn ystod y tymor hyfryd yma. 'Beth sydd tu hwnt i'n byd?' oedd ein thema ar gyfer y tymor ac mae'r disgyblion wedi bod wrth eu boddau yn astudio gwahanol agweddau o'r gofod. Dysgom lawer am blanedau Cysawd yr Haul, anturiaeth Neil Armstrong ac Apollo 11 a thrafod 'ydy teithio i'r gofod yn ddiangen?' Cawsom gyfle arbennig i weld y planedariwm yn Techniquest er mwyn dysgu mwy am ein bydysawd. Yn ogystal â hyn, mae Blwyddyn 5 wedi bod yn mwynhau dathlu diwrnod Gwyddoniaeth, lle cawsom y cyfle i wneud amrywiaeth o arbrofion a gwisgo fyny am y diwrnod – roeddynt i gyd yn edrych yn WYCH!

Dysgom lawer yn ein hymchwiliad rocedi, roedd yn wych i weld y plant yn datblygu eu sgiliau Gwyddonol. Gwelwyd hefyd talentau celf y plant wrth iddynt greu darluniau eu hunain. Mae Blwyddyn 5 wedi mwynhau paratoi a chymryd rhan yn ein mabolgampau ym mharc Jenner ble lwyddodd pawb i ymdrechu'n wych! Cawsom brofiad anhygoel hefyd mewn cyfarfod efo astrolegydd, wrth iddo egluro mwy am eu gwaith. Cawsom hefyd gyfle gwych i wylio sioe theatr 'Y Naid' a chymryd rhan mewn gweithdy efo'r gwasanaeth Tân.

Diolch am eich holl waith caled Blwyddyn 5 – mwynhewch eich Haf!







*It was brilliant to share the company of year 5 during this wonderful term. 'What is beyond our world?' was our theme for the term, and the pupils were delighted to study different aspects of space. We learned a lot about the planets of the Solar System, Neil Armstrong's adventure and Apollo 11, and discussed 'is space travel unnecessary?' We had a special opportunity to see the planetarium at Techniquest to learn more about our universe. In addition, Year 5 has enjoyed celebrating Science Day, where we had the opportunity to do a variety of experiments and dress up for the day – they all looked GREAT!*

*We learned a lot in our rocket investigation; it was great to see the children developing their scientific skills. We also saw the children's artistic talents as they created their own drawings. Year 5 has enjoyed preparing for and participating in our sports day at Jenner Park, where everyone strived excellently! We also had an amazing experience meeting with an astrologer, who explained more about their work. We also had a great opportunity to watch the theatre show 'Y Naid' and take part in a workshop with the Fire Service.*

*Thank you for all your hard work Year 5 – enjoy your Summer!*










# Blwyddyn 1




Wel, dyma ni ar ddiwedd ein tymor olaf ym mlwyddyn 1. Rydym wedi cael tymor brysur du hwnt yn archwilio ein thema ‘Ble yn y byd mae anifeiliaid yn byw?’, mae’r plant gwir wedi mwynhau ac wedi dysgu llawer o ffeithiau newydd am anifeiliaid o wledydd gwahanol.

Fel rhan o’n thema, wnaethon ni croesawu A&S Animal Encounters i’r ysgol. Wnaethon ni mwynhau’r cyfle i gwrdd â thrin mirgath, armadilo, crwban, neidr a madfall o wledydd gwahanol. Yn ogystal â’r cyfle i gwrdd ag anifeiliaid, wnaethon ni croesawu Sparklabs i’r ysgol. Cymerwn ran mewn nifer o arbrofion gwyddoniaeth wych am anifeiliaid.



Rydym wedi bachu’r tywydd braf ac wedi defnyddio’r ardaloedd tu fas i wella ein dysgu. Yn ystod Diwrnod Gwyddonwyr Gwallgof, cawsom ni’r cyfle i greu lamp lafa, gwylio rhesins yn dawnsio a chreu ffrwydrad folcano. Wnaeth y plant mwynhau cael y cyfle i dangos eu hymdrechion creadigol ac athletaidd wrth gynrychioli eu llysoedd yn y Mabolgampau a’r Eisteddfod, rydym yn falch iawn ohonyn nhw!

Mae’r plant yn gyffrous i symud i flwyddyn 2. Byddwn yn colli eu cwmni ond hoffwn ddymuno nhw’r gorau ym mlwyddyn 2! Gobeithiwch eich bod chi’n cael gwyliau haf braf a hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn.



*Well, here we are at the end of our final term in Year 1. We have had a very busy term exploring our theme ‘Where in the world do animals live?’, the children have engaged brilliantly and have learned lots of facts about various animals from different countries.*

*As part of our theme, we invited A&S Animal Encounters to school. We thoroughly enjoyed the chance to meet and handle a meerkat, armadillo, tortoise, snake and lizard, from different parts of the world. As well as the chance to meet animals we also invited Sparklabs to school. We took part in lots of fantastic science experiments about animals.*



*We have made the most of the brighter days and have been using the outdoor areas to enhance our learning. During the Mad Scientist Day, we had the opportunity to create lava lamps, watch raisins dance and create a volcano eruption. The children thoroughly enjoyed showing off their creative and athletic efforts to represent their house colours in Sports Day and the Eisteddfod, we are very proud of them!*

*The children are excited to move to Year 2, we will miss their company but wish them all the best! We hope you have a lovely summer and would like to thank you all for your continued support throughout the year.*






# Rygbi / Rugby



Mae'r tymor yma wedi bod yn un brysur ar gyfer gemau rygbi! Cafodd ein tîm cyswllt cymysg lawer o gyfleoedd trwy gydol y tymor. Cynrychiolwyd yr ysgol drwy gystadlu yn nhwrnamaint 7 bob ochr yr Urdd ar Gaeau Pontcanna. Hwn oedd y profiad cyntaf o chwarae gêm rygbi go iawn i nifer o'r chwaraewyr. Chwaraeodd y tîm hefyd yn erbyn Ysgol Gynradd Gatholig Santes Helen a oedd yn gyfle gwych i bawb a gymerodd ran. Rydym mor falch o'r cynnydd a wnaeth y tîm drwy gydol y tymor rygbi eleni. Da iawn chi!

Cafodd criw o ferched Bl6 y cyfle i gynrychioli'r ysgol mewn twrnamaint rygbi tag yr Urdd yng Nghlwb Rygbi Cwins Caerdydd. Cawsom ddiwrnod llawn hwyl (a llawn mwd hefyd!) Yn ogystal, cafodd rhai o ddisgyblion Blwyddyn 6 brofiad anhygoel yn chwarae mewn gŵyl tag Rygbi Caerdydd ym Mharc yr Arfau. Braf oedd gweld y tîm yn chwarae ar y cae enwog.

*This term has been a busy one for rugby games! Our mixed contact team had many opportunities throughout the term. They represented the school by competing in the Urdd's 7's tournament in Pontcanna Fields. This was the first experience of playing a real rugby game for many of the players. The team also played against St. Helen's Catholic Primary School which was a great opportunity for everyone involved. We are so proud of the progress the team made throughout the rugby season this year. Well done all!*

*A group of Year 6 girls had the chance to represent the school playing in an Urdd tag rugby tournament at Cardiff Harlequins RFC. We had a day full of fun (and full of mud too!). Additionally, some Year 6 pupils had an amazing experience playing in a Cardiff Rugby tag festival at the Arms Park. It was great to see the team playing on the famous pitch.*




Diolch yn fawr i chi gyd,

Miss Liney a Mr Terfel

















# Meithrin Nursery



Wel, dyma ni wedi cyrraedd diwedd y flwyddyn ysgol ac mae'r amser wedi hedfan! Yn ystod y tymor olaf, yn dilyn ein thema 'Un Tro', buom yn astudio nifer o lyfrau, megis Y Lindysyn Llwglyd Iawn, Y Tri Mochyn Bach ac Elen Benfelen. Cafodd y plant gyfle i blannu hadau, mesur eirth,  blasu uwd, chwarae rôl a llawer o waith ffurfio llythrennau a rhifau. Mwynhaodd y plant ymweliadau gan y frigâd dân yn ogystal â Dinki Dragons a'i sesiwn pêl-droed. Hoffwn ddiolch i chi a'ch plant am flwyddyn arbennig yn y Meithrin.

*Well, here we are at the end of the school year and the time has flown by! During this last term, we have been studying a variety of books, such as The Very Hungry Caterpillar, The Three Little Pigs and Goldilocks. The children have had the opportunity to plant seeds, measure bears, role-play, making/ tasting porridge and plenty of number/letter formation activities. The children enjoyed visits from the fire brigade as well as Dinki Dragons and their football session. We would like to take this opportunity to thank you and your children for a wonderful year in the Nursery.*







# Blwyddyn 2



Dyma ni yn agosáu at ddiwedd blwyddyn brysur iawn ym Mlwyddyn 2. Ein thema'r tymor yma oedd 'Sut gallwn ni gadw'n byd yn fendigedig?', lle cawsom gip ar ba mor hardd yw ein byd ond hefyd beth all ei niweidio. Datblygodd y plant eu sgiliau llafar gan greu dadleuon o blaid ac yn erbyn pethau fel ceir, torri coed a phlastig. Roedd hi'n bleser gweld y plant yn defnyddio eu gwybodaeth newydd i ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu ymhellach ac fe wnaethon nhw gynllunio ac ysgrifennu erthyglau papur newydd gwych oedd yn amlygu problemau cynhesu byd-eang. Fe wnaethon ni fwynhau darllen yr holl benawdau gwahanol yn fawr!

*And just like that we're nearing the end of a very busy year in Year 2. Our theme this term was 'Our wonderful world', where we had an insight into how beautiful our world is but also what can damage it. The children developed their oral skills and constructed arguments for and against different things like cars, cutting trees and plastic. It was a pleasure to see the students using their new knowledge to further develop their writing skills by planning and writing a newspaper article highlighting the problems of global warming. We thoroughly enjoyed reading all the different headlines!*







Fe wnaeth y plant fwynhau cymryd rhan mewn sawl arbrawf gwyddonol yn ystod y tymor. Dysgwyd am effeithiau cynhesu byd-eang mewn arbrawf yn efelychu'r capiau ia'n toddi. Yn ogystal, datblygwyd eu sgiliau technoleg a sgiliau gweithio fel tîm wrth ymateb i'r her o greu dyluniad er mwyn atal ŵy rhag torri wrth gael ei daflu drwy ffenestr y dosbarth. Roedd ein hamser yn Techniquest yn ffordd berffaith o ddefnyddio ein gwybodaeth newydd ac archwilio agweddau gwyddonol o bob math!

*The children enjoyed taking part in several scientific experiments during the term. We learned about the effects of global warming in an experiment simulating the melting ice caps. In addition, they developed their technology and team-working skills in meeting the challenge of creating a design to prevent an egg from breaking while being thrown through the classroom window. Our time at Techniquest was the perfect way to use our new knowledge and explore scientific aspects of all kinds!*

Rydyn ni wedi bod yn ymarfer ein sgiliau mathemateg llawer hefyd. Dyma ni'n ymarfer dweud yr amser, mesur mewn litrau a mililitrau a defnyddio ffracsiynau mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn:

*We've been practicing our maths skills a lot too. Here we are practicing telling the time, measuring in litres and mililiters and using fractions in real life situations:*











Mae wedi bod yn bleser pur gweithio gyda grŵp blwyddyn mor frwdfrydig a gofalgar ac ni allwn aros i'w gwylio'n datblygu ar eu taith addysgol. Unwaith eto, hoffem ddiolch o waelod calon i chi fel rhieni a gofalwyr am eich cefnogaeth ac ymdrech barhaus a gobeithiwn y cewch wyliau haf bendigedig. Pob lwc blwyddyn 2, a chofiwch weithio'n galed, bod yn barchus a chael hwyl!

*It has been our absolute pleasure to work with such an enthusiastic and caring year group and we can't wait to watch them grow in their educational journey. Again, we would like to send our deepest gratitude to you as parents and carers for your continued support and effort and we hope you have a wonderful summer break. Good luck year 2, and remember to work hard, be respectful and have fun!*

# Siarter Iaith / Welsh Language Charter





Ein ffocws yn nhymor 3 oedd cael ein plant i werthfawrogi ac ymfalchïo mwy yn eu gallu gyda'r iaith. Rydym wrthi yn casglu a chreu cyfres o ganeuon gan bob Blwyddyn er mwyn chwarae o fewn yr Ysgol erbyn mis Medi nesaf.
Roeddem yn falch iawn o bawb a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Ysgol – perfformiadau gwych ym mhob cystadleuaeth llwyfan gan gofio'r holl waith yn y dosbarthiadau. Llongyfarchiadau i bawb eleni.
Fel Ysgol roeddem yn hynod falch o lwyddiant Band Sant Curig a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn eleni.
Llongyfarchiadau mawr i'r aelodau ac i Mr Llwyd am ei waith fel rheolwr.

Diolch i bawb o deulu Sant Curig am gefnogi y Siarter Iaith eleni!

*Our focus this term was to remind the children of their language and to appreciate and celebrate Welsh. We have asked each Year to prepare a playlist of our favourite Welsh music for us to share throughout the school from September. We hope to share with parents and families as well.*
*We also held our own multi-year School Eisteddfod and was so great to see talented pupils perform via song, recital, dance, music and not forgetting all the class competitions. Congratulations to all this year.*
*As a school we were very proud of the Sant Curig Band who competed in the National Eisteddfod of Maldwyn this year and congratulations on their 2nd place. Congratulations to all the band members and to Mr Llwyd for his preparation work.*

*Thank you to all of the Sant Curig Family who have supported the Welsh Language Charter this year.*






Llongyfarchiadau mawr i Sophie McDonald o flwyddyn 5 am ei gwaith ysgrifennu fel rhan o brosiect Dramodwyr Ifanc Theatr Iolo. Cafodd Sophie y cyfle i fod yn rhan o'r broses recordio gydag actorion llais. Mae posibl gwrando a chlywed ei phodlediad drwy ddilyn y linc isod.

*Congratulations to Sophie McDonald from Year 5 who was successful in a play writing competition organised by Theatre Iolo. Sophie's work has been turned in a podcast and she was also part of the recording and production. You can listen to Sophie's work by following the link below.*

https://youtu.be/EoQe2-83keO?feature=shared

# Sêr y Tymor



## CYMREICTOD

*Derbyn - Elijah M a Matthew C*

*1 - Nancy B a Xavier C*

*2 - Parker D a Finn J*

*3 - Jessica P ac Emelia E*

*4 - George R ac Alanna W*

*5 - Grace H a Ruby C*

*6 - Macsen H a Harry H*



## YMDRECH

*Derbyn - Ada M a Cooper WB*

*1 - Isabelle B a Josefine WA*

*2 - Lloyd G a Violet M*

*3 - Eva L a Miyah D*

*4 - Chloe M, Freddie S a Marlie B*

*5 - Harvey S a Lydia HK*

*6 - Jack D a Nikko AB*



## CYFEILLGARWCH

*Derbyn - Jac S a Harley A*

*1 - Faye J ac Elis M*

*2 - Archie T ac Amelia H*

*3 - Grace W a Rowen K*

*4 - Riley J ac Annie M*

*5 - Isla-Rae P ac Elsie R*

*6 - Una ST, Charlie F a Lili S*

# Disgyblion y Flwyddyn!

**Dosbarthiadau'r Derbyn**

*Imogen E, Imogen S a River S*

**Blwyddyn 1**

*Elijah H a Gracie-Mae S*

**Blwyddyn 2**

*Chloe B, Alice H a Jaxson H*

**Blwyddyn 3**

*Joseph B a Hollie D*

**Blwyddyn 4**

*Isla S a Maya G*

**Blwyddyn 5**

*Phoebe A a Manon-Mai M*

**Blwyddyn 6**

*Corey L, Lucas M, Imogen G ac Oliver P*

# Blwyddyn 3



Dechrau cyffroes i'r tymor gydag ein hymweliad i Acwariwm Bryste. Diwrnod gwych yn gweld a dysgu mwy am greaduriaid y môr. Roedd hwn yn sbardun da wrth i ni gyflwyno ein thema 'O Dan y Môr a'u Donnau.'

Yn ystod y tymor llwyddom i adnabod nifer o greaduriaid môr gan ymchwilio ar-lein a mynd ati i greu disgrifiadau yn ein gwaith ysgrifennu. Roedd ein gwaith Gwyddoniaeth wedi ein galluogi i sylweddoli pwysigrwydd cadwyni bwyd. Gan ystyried hyn cawsom gyfle i drafod a dysgu mwy am effaith llygredd ar ein hafonydd a moroedd. Mae'r plant yn ymwybodol o leoliad prif foroedd ein byd. Cawsom hwyl yn dysgu mwy am ein hunaniaeth ac ail-adrodd hen chwedl Gymreig am Gantre'r Gwaelod drwy ddull Pie Corbett. Fe wnaeth yr RNLI ein hatgoffa am bwysigrwydd o gadw'n ddiogel wrth ymweld ag ar lan y môr neu yr arfordir.



Roedd ymweliad y plant i Barc Jenner ar gyfer y Mabolgampau yn brofiad newydd a hwylus iddynt. Llwyddom i ymweld â sawl agwedd o'r maes dysgu Celfyddydau Mynegiannol drwy ein sesiynau dawns gyda Ms Lara Ward; diolch iddi am y cyfle. Roedd ein sesiynau lles wedi canolbwyntio ar wahanol gamau o edrych ar ôl ein hunain a chyfoedion.



I orffen y tymor, er nid oeddem yn medru cyrraedd y traeth, cawsom gyfle i fwynhau cwmni ein gilydd gyda thaith i Barc Romilly.

Hoffem ddiolch i'r plant am eu hymdrechion eleni ac i'r holl rieni a theuluoedd am y gefnogaeth barhaus. Dymunwn haf llawn hwyl a hapus i chi gyd a gobeithio bod y plant yn gyffrous am y profiadau newydd sydd yn eu gwynebu ym mlwyddyn 4.

*Our term started with a visit to Bristol Aquarium which was an exciting day learning about some of the underwater creatures. The visit was a good inspiration as we began to explore our theme of work – 'Below the Seas'.*



*During the term we were able to investigate some of our favourite under sea creatures through finding facts online and to describe creatures in our written work. Our science work allowed us to learn more about the importance of food chains. We also learned about the effects of pollution on our water ways and oceans. The children are aware of how many oceans we have on the planet. We also enjoyed learning about the old Welsh myth of 'Cantre'r Gwaelod' using Pie Corbett method to remember and recite. The RNLI reminded us of the importance of safety when visiting our sea sides and coastline.*




*Our first visit to Jenner Park on Sports day was a great new experience. We also explored the Expressive Arts through dance sessions and wish to thank Ms Lara Ward for the opportunities. Our weekly wellbeing sessions allowed the children to examine ways of looking after themselves and others. To finish the term, even though we did not reach the Island, we were able to enjoy a day together relaxing and enjoying at Romilly Park.*

*Thanks to all the children for their efforts and company during the year and especially parents and families for their continued support throughout. We wish you all a happy and relaxing summer break and hope the children are looking forward to their new experiences in Year 4.*

# Blwyddyn 4

Mae blwyddyn 4 wedi mwynhau dysgu am ein hardal leol a gwledydd o amgylch y byd y tymor yma. Rydym wedi mwynhau teithio ar draws y môr i ddysgu am ddiwylliannau gwledydd arall ac roedd dysgu sut i siarad Ffrangeg yn lot o hwyl. Rydym wedi mwynhau dysgu am hanes Y Barri ac uchafbwynt y thema oedd dysgu am y Rhufeiniaid. Fe wnaethon ni wir mwynhau'r trip i'r amgueddfa Rhufeiniaid yng Nghaerleon. Roedd esgus bod yn filwr yn grêt! Roedd ein trip i Ynys Y Barri yn ddiwrnod bythgofiadwy hefyd, yn enwedig bwyta'r hufen ia blasus! Datblygon ni ein sgiliau nofio dros ein pythefnos o wersi nofio ac fe wnaethon ni sereni yn ein gwasanaeth 'Uchelgeisiau'. Roedd ein canu yn wych! Rydym wedi cael tymor prysur a hwylus. Dymunwn Haf hapus i chi gyd!






*Year 4 have enjoyed learning about their local area and countries around the world this term. We have enjoyed travelling across the sea to learn about other cultures and learning to speak French was lots of fun! We have enjoyed learning about the history of Barry and the highlight of the theme was learning about the Romans. We had a fantastic time at the Roman Museum in Caerleon. Pretending to be a Roman Soldier was amazing! Our trip to Barry Island was a memorable day – especially eating the tasty ice cream! We developed our swimming skills during our fortnightly lessons and we shone in our year 4 assembly on 'Ambitions'. We sang fantastically well! We have had a very busy and fun term. We wish you all a happy Summer!*






# Dyddiadau / Dates

Diwrnodau HMS* - 02/09/24 a'r 21/07/25 (dyddiadau ychwanegol i'w gadarnhau)

Diwrnod cyntaf nol i blant yw Dydd Mawrth y 3ydd o Fedi.

(Dydd Iau y 5ed i blant y Meithrin)

*INSET Day's* - 02/09/24 & 21/07/25 (additional dates TBC)*

*First day back for children is Tuesday the 3rd of September.*

*(Thursday the 5th for Nursery children)*

| Tymor | Dechrau | Hanner Tymor | | Diwedd | Nifer o ddyddiau ysgol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Dechrau | Diwedd | | |
| Hydref 2024 | *Dydd Llun 2il o Fedi | Dydd Llun 28ain o Hydref | Dydd Gwener 1af o Dachwedd | Dydd Gwener 20fed o Ragfyr | 75 |
| Gwanwyn 2025 | Dydd Llun 6ed o Ionawr | Dydd Llun 24ain o Chwefror | Dydd Gwener 28ain o Chwefror | Dydd Gwener 11eg o Ebrill | 65 |
| Haf 2025 | Dydd Llun 28ain o Ebrill | Dydd Llun 26ain o Fai | Dydd Gwener 30ain o Fai | *Dydd Llun 21ain o Orffennaf | 55 |

| Term | Begin | Half Term | | End | No. of school days |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Begin | End | | |
| Autumn 2024 | *Monday 2nd September | Monday 28th October | Friday 1st November | Friday 20th December | 75 |
| Spring 2025 | Monday 6th January | Monday 24th February | Friday 28th February | Friday 11th April | 65 |
| Summer 2025 | Monday 28th April | Monday 26th May | Friday 20th May | *Monday 21st July | 55 |